GWASANAETH LLYSOEDD EI MAWRHYDI
hmcs
HER MAJESTY'S COURTS SERVICE

Strategaeth Fusnes GLIEM

CHWEFROR 2006

GWASANAETH LLYSOEDD EI MAWRHYDI
hmcs
HER MAJESTY'S COURTS SERVICE

Strategaeth Fusnes GLIEM

CHWEFROR 2006

Cynnwys

Rhagymadrodd 1

Ein Nod Strategol 2

Egwyddorion Strategol 4

1 Rhoi anghenion y dinesydd yn gyntaf 4

2 Cynyddu mynediad at gyfiawnder 5

3 Sicrhau parch tuag at, a ffydd yn, y llysoedd 5

4 Gweddnewid y ffordd o gyflenwi gwasanaethau 6

5 Cynnal annibyniaeth y farnwriaeth 6

6 Bod yn gyflogwr sy'n cael ei ddewis gan y rhai sydd am ddarparu gwasanaeth cyhoeddus o'r radd flaenaf 7

Beth fydd yn wahanol i ddefnyddwyr y llysoedd? 8

Sut bydd ein sefydliad yn edrych? 9

Cyrtiau 9

Gwasanaethau gweinyddol 9

Gwasanaethau gorfodi 9

Model y sefydliad sy'n datblygu 10

Rhoi blaenoriaethau'r Llywodraeth ar waith 11

Ein strategaeth er mwyn gwireddu'r newid hwn 15

Rheoli achosion yn effeithiol 15

Moderneiddio'r ffordd o gyflenwi gwasanaethau 15

Symleiddio'r broses a'r gweithdrefnau 18

Gweinyddiaeth effeithlon 18

Sicrhau cydymffurfiaeth a gorfodaeth effeithiol 19

Y Sialensiau sydd yn ein Hwynebu 20

Creu sefydliad a diwylliant newydd 20

Diwallu'r galw a chynnal perfformiad 20

Darparu mynediad at gyfiawnder mewn ffyrdd newydd 22

Buddsoddi a chyllid 23

Cyrraedd ein targedau drwy weithio gyda phartneriaid 23

Strategaethau ategol 24
1 Ein strategaeth pobl 24
2 Technoleg Gwybodaeth 25
3 Yr Ystâd 26
4 Ffioedd 36
Y Camau Nesaf 28

Rhagymadrodd

Gweledigaeth drosfwaol yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Arglwydd Ganghellor i'r Adran Materion Cyfansoddiadol yw y dylai'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu fod er budd y cyhoedd nid y darparwr. Yn ei Faniffesto ar gyfer Adran Newydd dywedodd yr Arglwydd Falconer:

> *"…...…..y grym sy'n gyrru ein diwygiadau, ein polisïau a'r cyllid ar gyfer y dyfodol yw dangos newid clir a diamwys; newid o ymateb i anghenion darparwyr gwasanaethau cyhoeddus i wireddu blaenoriaethau'r cyhoedd y maent yn ei wasanaethu."*

Ein nod strategol

Mae'r strategaeth hon yn edrych ymlaen at greu gweledigaeth ar gyfer y sefydliad y mae Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi (GLIEM) yn gobeithio esblygu iddo dros y pum mlynedd nesaf. Dyma ein nod:

> *"Mae gan bob dinesydd yn unol â'i anghenion gwahanol hawl i gyrchu at gyfiawnder, boed hynny fel dioddefwr troseddau, diffynnydd a gyhuddir o droseddau, defnyddiwr sydd mewn dyled, plentyn y mae angen gofal arno, neu'n berson busnes mewn anghydfod masnachol. Ein nod yw sicrhau bod mynediad yn cael ei ddarparu cyn gyflymed â phosibl ac am y gost isaf sy'n gydnaws â chyfiawnder agored a bod gan ddinasyddion fwy o ffydd yn, a pharch tuag at, y gyfundrefn gyfiawnder".*

Er mwyn cyflawni hyn rydym yn cydnabod bod yn rhaid inni weithio gydag eraill, yn cynnwys y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, i sicrhau gwell canlyniadau i ddinasyddion sy'n defnyddio'r gyfundrefn gyfiawnder, llawer ohonynt nad ydynt yn dod i'r llys. Mae ein cyfrifoldebau yn ymestyn tuag at y bobl hyn i'r un graddau a thuag at ddefnyddwyr y llysoedd. Pan fydd pobl yn dod i'r llys byddwn yn darparu gwasanaethau sy'n gweddu i'r defnyddiwr, drwy foderneiddio'r sianelau cyflenwi gwasanaethau a symleiddio prosesau. Bydd teilwrio ystadau'r llysoedd a gwella'r seilwaith TG yn chwarae rhan allweddol yn gwireddu'r strategaeth hon.

Mae ein gallu i gyflawni rhaglen o newid sylweddol yn dibynnu ar sicrhau'r buddsoddiad a'r arbedion effeithlonrwydd angenrheidiol, a bydd rhaid adolygu a diweddaru ein strategaeth a'n cynlluniau gweithredu wrth i'r cyllid buddsoddi a refeniw ddod yn amlwg. Rydym yn datblygu achosion busnes i gefnogi'r achos dros newid ac i bennu'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu, yn ogystal â'n capasiti a'n gallu i gyflawni'r newid hwn.

Bydd ein gallu i roi newid ar waith yn dibynnu hefyd ar:

- gynhyrchu buddsoddiad mewnol drwy arbedion effeithlonrwydd yn deillio o leihau'r costau gweithredol, newid trefniadol, cyfnerthu gweinyddol a chael rhagor o bobl i fanteisio ar wasanaethau awtomataidd;
- sicrhau nad yw capasiti ac adnoddau yn cael eu gwastraffu ar weithgareddau y gellid eu gwneud yn well mewn mannau eraill; a
- sicrhau buddsoddiad newydd er mwyn moderneiddio'r ddarpariaeth gwasanaethau.

O reidrwydd, bydd trawsnewid y gwasanaeth yn broses esblygol. Byddwn yn targedu adnoddau at flaenoriaethau allweddol y Llywodraeth a'r gwasanaethau allweddol sy'n ofynnol ar gyfer cyfundrefn gyfiawnder effeithiol. Mae angen inni sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar roi pobl wrth galon y ffordd y caiff cyfiawnder ei wireddu wrth ymdrin â'n cyllid.

Mae rhai meysydd allweddol lle gallwn weinyddu'r llysoedd yn fwy effeithlon:

- gwneud gwell defnydd o'n hadeiladau;
- tynnu swmpwaith sylweddol oddi wrth y llysoedd;
- canoli peth gwaith gweinyddol swyddfeydd cefn;
- cael rhagor o bobl i fanteisio ar wasanaethau ffôn ac e-wasanaethau;
- ffyrdd newydd o weinyddu'r £20 biliwn o arian yr ydym yn ymdrin ag ef yn flynyddol;
- cyfnerthu gweithgarwch dirwyon a gorfodaeth yn y gwasanaeth gorfodi cenedlaethol;
- gwell rheolaeth electronig dros ddogfennau a ffeiliau achosion.

Rydym yn nodi yma yr egwyddorion strategol sy'n sylfaen i newid sefydliadol a cherrig milltir allweddol i arweinwyr GLIEM, fel bod modd ymgorffori'r rhain yn y cylchoedd cynllunio a blaenoriaethu cyfredol.

Egwyddorion strategol

Mae ein strategaeth wedi cael ei seilio ar chwe egwyddor sy'n rhoi sylw i'r nod hwn.

Byddwn yn:

1 Rhoi anghenion y dinesydd yn gyntaf

Mae hyn yn golygu y byddwn yn canolbwyntio ar anghenion pob dinesydd, ac yn sicrhau bod gofynion y bobl fwyaf bregus mewn cymdeithas, plant yn arbennig, yn cael eu diwallu pan fydd angen iddynt ddefnyddio'r gyfundrefn gyfiawnder.

- Bydd barn y sawl sy'n defnyddio'r drefn gyfiawnder yn sail ar gyfer ein cynllunio a'n proses benderfynu, ac yn gefn i hynny hefyd, bydd gennym well data am anghenion y sawl sydd mewn perygl, ac am ein perfformiad a'n heffeithlonrwydd.
- Mae gan ddefnyddwyr gwahanol anghenion gwahanol - *"nid yr un ateb sy'n gweddu i bawb"*;
- Caiff y canlyniadau gorau posibl i blant eu cyflawni cyn gyflymed â phosibl, a bydd eu hamddiffyn rhag niwed yn flaenoriaeth;
- Mewn achosion troseddol, bydd anghenion dioddefwyr, tystion a rheithwyr yn flaenoriaeth. Cânt eu trin â pharch, eu cadw'n saff a byddant yn cael llawer o wybodaeth drwy gydol y broses. Byddwn yn gweithio gyda barnwyr, ynadon ac eraill i sicrhau gwrandawiad cyfiawn a theg i bawb sy'n ymddangos gerbron y llysoedd;
- Bydd cyngor a gwybodaeth safonol yn cael eu darparu mewn anghydfodau sifil a theulu; bydd y dinesydd yn cael cyngor ac arweiniad am y ffordd orau o osgoi neu o ddatrys anghydfod, yn cynnwys ffyrdd o'i ddatrys y tu allan i ystafell y llys, ac am faterion ehangach megis dyled;
- Bydd prosesau a gweithdrefnau'n cael eu cynllunio fel eu bod yn gweddu i'r defnyddiwr yn hytrach na'r gweinyddwr.

2 Cynyddu mynediad at gyfiawnder

Mae hyn yn golygu bod gan ddefnyddwyr y llysoedd fwy o ddewis a hwylustod.

- Bydd y gwasanaethau ar gael pan fydd eu hangen a lle mae eu hangen – yn y Cwrt, dros y ffôn neu ar y rhyngrwyd, a thrwy gyrff cyfryngol, megis asiantaethau cynghori sydd â nod ansawdd;
- Bydd gwybodaeth am y llysoedd yn cael ei gwneud yn hawdd i'w deall a bydd ar gael yn eang;
- Bydd gwasanaethau cownter a gwrandawiadau llys yn cael eu darparu mewn canolfannau amlbwrpas;
- Bydd gwell cyfleusterau yn cael eu darparu i bob defnyddiwr - rheithwyr, dioddefwyr a thystion - a bydd gwell cefnogaeth yn cael ei darparu i ddefnyddwyr pan fyddant yn rhoi tystiolaeth neu'n bresennol yn y llys;
- Lle bo hynny'n briodol byddwn yn defnyddio technoleg ffôn a fideo i'w gwneud yn haws i gymryd rhan mewn achosion.

3 Sicrhau parch tuag at, a ffydd yn, y llysoedd

Mae hyn yn golygu y byddwn yn sicrhau bod anghenion a phryderon cymunedau lleol yn cael eu deall a'u hadlewyrchu yn y blaenoriaethau y cytunir arnynt gyda'r farnwriaeth ar gyfer ein llysoedd. Byddwn yn sicrhau bod penderfyniadau'r llys yn cael eu parchu ac y cydymffurfir â hwy, a lle na chydymffurfir â hwy eu bod yn cael eu gorfodi'n gyflym. Bydd y rhai sy'n dod i'r llys yn cael eu trin ag urddas a pharch.

- Byddwn yn datblygu safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaeth cwsmeriaid a siarter llysoedd newydd GLIEM gyda'r nod o feithrin ymddiriedaeth y rhai sy'n defnyddio ein llysoedd;
- Byddwn yn parhau i hyrwyddo dealltwriaeth o'r llysoedd, y rhannau a chwaraeir gan ddinasyddion a gweithwyr proffesiynol, a chanlyniadau achosion, er enghraifft, drwy ddiwrnodau agored a gweithgareddau i ysgolion;
- Rydym yn treialu dulliau newydd o ymdrin â chyfiawnder cymunedol yn Lerpwl a Salford a byddwn yn rhoi'r gwersi a ddysgir ar waith mewn llysoedd eraill;
- Byddwn yn ei gwneud yn haws cydymffurfio â gorchmynion a byddwn yn mynd ar ôl y diffyg cydymffurfio yn egnïol lle bo hynny'n digwydd;
- Byddwn yn rhoi gwasanaeth gorfodi cenedlaethol ar waith, ar gyfer gorfodaeth droseddol a sifil, a bydd y gwasanaeth hwn yn rheoli cyfrifon dirwyon yn fanwl, yn olrhain diffygdalwyr, yn gwella safonau ac yn cryfhau pwerau swyddogion gorfodi a'r cymorth iddynt;
- Bydd Cofrestr Dyfarniadau a Dirwyon gyfun newydd.

4 Gweddnewid y ffordd o gyflenwi gwasanaethau

Mae hyn yn golygu y byddwn yn darparu mynediad at gyfiawnder mewn ffyrdd newydd sy'n bodloni disgwyliadau defnyddwyr y llysoedd am safonau gwasanaeth modern.

- Byddwn yn ceisio cynyddu'r gyfran o achosion sifil sy'n cychwyn yn electronig i 75% o leiaf erbyn 2010;
- Byddwn yn ymchwilio i'r potensial i ddarparu systemau ar gyfer rheoli achosion a phapurau llys yn electronig;
- Byddwn yn cynyddu'r nifer o wrandawiadau byr y mae modd delio â hwy o bell fel na fydd gofyn i bobl deithio i'r llys;
- Ein nod yn y tymor hwy yw y bydd y dinesydd yn gallu cael help neu wybodaeth am hynt achos mewn unrhyw lys, ni waeth ymhle y cafodd yr achos ei gychwyn;
- Byddwn yn awtomeiddio rhai prosesau i alluogi defnyddwyr llys i olrhain hynt mwy o achosion ar-lein;
- Byddwn yn darparu gwasanaethau cyfiawnder troseddol ar y cyd i sicrhau nad yw dinasyddion yn cael eu trosglwyddo o un asiantaeth i'r llall.

5 Cynnal annibyniaeth y farnwriaeth

Mae hyn yn golygu y byddwn, yn unol ag egwyddorion y concordat barnwrol, yn darparu'r cymorth angenrheidiol i farnwyr ac ynadon i gyflawni eu rôl yn effeithiol.

- Byddwn yn sicrhau bod gan y llysoedd ddigon o staff medrus, sydd wedi cael eu hyfforddi'n dda;
- Byddwn yn sicrhau bod adnoddau a chyfleusterau eraill yn ddigonol er mwyn i'r llysoedd allu gweithredu'n effeithiol ac effeithlon, a byddwn yn gweithio'n agos gydag asiantaethau partner i ddiogelu gwasanaethau allweddol sy'n hanfodol i weithgareddau'r llysoedd;
- Byddwn yn cyflawni'r tasgau a ddirprwyir inni gan farnwyr ac ynadon yn fedrus ac yn broffesiynol;
- Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â'r farnwriaeth i gynorthwyo penderfyniadau barnwrol ynglŷn â threfnu a dyrannu gwaith.

6 Bod yn gyflogwr sy'n cael ei ddewis gan y rhai sydd am ddarparu gwasanaeth cyhoeddus o'r radd flaenaf

Mae hyn yn golygu y byddwn yn sefydliad sy'n gwrando, yn dysgu ac yn grymuso. Byddwn yn gwrando ar syniadau a phryderon ein pobl ac yn defnyddio eu profiad i wneud GLIEM yn lle da i weithio ynddo ac i wella'r gyfundrefn ar gyfer defnyddwyr y llysoedd.

- Byddwn yn gwneud swyddi'n gydnaws ag anghenion cwsmeriaid;
- Byddwn yn darparu'r hyfforddiant, y sgiliau a'r arfau cywir i gynnal pobl yn eu rôl;
- Byddwn yn defnyddio'r Rhaglen Sgiliau Llywodraethu Proffesiynol i sicrhau'r cymysgedd iawn o sgiliau, i ddatblygu ein pobl a darparu cyfleoedd i symud ymlaen;
- Byddwn yn datblygu arweinwyr rhagorol;
- Bydd ein pobl yn gynrychiadol ac yn deall y cymunedau amrywiol yr ydym yn eu gwasanaethu.

Beth fydd yn wahanol i ddefnyddwyr y llysoedd?

- Pobl fregus bydd ganddynt un pwynt cyswllt drwy broses y llys, bydd ganddynt gyfleusterau ar wahân yn y llys, a byddant yn gallu rhoi tystiolaeth yn ddiogel. Byddant yn cael gwybodaeth yn gyson, yn cael sicrwydd am yr hyn sy'n digwydd a byddir yn delio â'u hachosion yn gyflym. Bydd penderfyniadau am ddyfodol plant yn cael eu gwneud yn fwy cyflym, gyda phwyslais ar helpu rhieni i ddeall anghenion plant.

- Y dinesydd darperir gwasanaeth rhagorol i ddioddefwyr tra'n sicrhau bod hawliau'r diffynnydd yn cael eu parchu'n llwyr. Byddwn yn gwneud yn siŵr fod y rhai sy'n camu ymlaen i gyflawni dyletswydd gyhoeddus fel rheithiwr, neu dyst, yn cael cynhaliaeth briodol. Caiff ynadon eu recriwtio o ystod eang o alwedigaethau a chefndiroedd, a byddant yn cael eu hyfforddi i fod yn aelodau effeithiol a hyderus o'r farnwriaeth. Bydd dinasyddion yn cael eu harwain at y ffordd orau o osgoi neu ddatrys anghydfod. Bydd gweithdrefnau'r llys yn symlach, ac yn haws cyrchu atynt, a bydd help gydag ymholiad ar gael mewn unrhyw gwrt. Bydd y rhyngrwyd yn darparu gwasanaeth 24 awr, a bydd rhagor o wasanaethau ar gael dros y ffôn.

- Y rhai sy'n ymwneud â'r Gyfundrefn Cyfiawnder Troseddol ac asiantaethau partner eraill byddant yn cyfnewid gwybodaeth a dogfennau â'r llysoedd yn electronig. Byddwn yn gweithio gyda hwy i ddarparu gwasanaethau, yn rheoli hynt achosion yn fanwl, ac yn edrych ar ôl tystion, a byddwn yn rhannu cyfleusterau ac adeiladau. Bydd cyrff cyfryngol, megis asiantaethau cynghori, yn darparu mynediad at rai gwasanaethau sifil a theulu.

- Y proffesiynau cyfreithiol byddant yn gallu ffeilio dogfennau a chyflwyno tystiolaeth yn electronig a byddant yn cael eu hannog i weithio gyda GLIEM yn electronig. Byddant yn gallu cyrchu'n hawdd at wybodaeth am hynt eu hachosion, a chânt fwy o sicrwydd am amserlenni a dyddiadau gwrandawiadau.

- Busnes bydd gwell cyfleusterau ar gael i fusnesau i ddatrys anghydfodau masnachol; gallant fanteisio ar ffyrdd cyflym ac effeithlon o adennill dyledion neu eiddo 24 awr y dydd, a gallant ddibynnu ar drefn effeithiol i orfodi dyfarniadau llys.

- Y wladwriaeth lle bo hynny'n briodol, bydd yn ymgymryd â'i busnes llys, fel erlynydd, hawlydd neu gredydwr, yn electronig er mwyn ehangu mynediad electronig i'r llysoedd i ddinasyddion ac i sicrhau'r defnydd gorau o arian cyhoeddus.

- Y rhai sy'n talu dirwyon a dyledion byddant yn cydymffurfio â gorchmynion llys a bydd ganddynt gannoedd o leoedd i dalu, a thalu dros y rhyngrwyd 24 awr y dydd. Os na fyddant yn talu gallant ddisgwyl galwad ffôn sydyn i'w hatgoffa ac yna gamau adennill cyflym os nad ydynt yn cydymffurfio wedyn.

Sut bydd ein sefydliad yn edrych?

Bydd ein sefydliad gwaelodol yn adlewyrchu'r newid o weithio ar sail strwythurau traddodiadol i wasanaethau sydd wedi cael eu cynllunio gyda'r dinesydd mewn golwg. Pan fo angen presenoldeb personol neu gyngor wyned-yn-wyneb bydd y cyrtiau yn parhau i fod yn fannau pwysig. Bydd ein gwasanaethau eraill yn cael eu darparu'n gynyddol dros y ffôn neu'r rhyngrwyd, byddant yn hwylus a fforddiadwy, a bydd ein strwythurau gweinyddol yn newid i adlewyrchu hyn.

Cyrtiau - erbyn 2010, yn lle adeiladau ar wahân a staff gweinyddol ar wahân i Lys y Goron, y llysoedd sirol a'r llysoedd ynadon, bydd llawer o ganolfannau unedig neu gysylltiedig gyda gweinyddiaeth ar y cyd i ddarparu cymorth hyblyg i fusnes y llysoedd. Bydd hyn yn golygu:

- datblygu canolfannau llysoedd teulu, yn bennaf o fewn canolfannau sy'n bodoli'n barod;
- cyfnerthu ein hystadau heb golli gwasanaethau lleol;
- darparu llysoedd a phanelau pwrpasol - e.e. cyfiawnder cymunedol, trais yn y cartref, cyffuriau ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol.

Gwasanaethau gweinyddol erbyn 2010 byddwn wedi symud o weinyddiaeth leol dameidiog, sy'n cael ei dyblygu, i gymysgedd o swyddfeydd cefn a gweinyddiaeth leol ar y cyd gan gynnal perfformiad tra'n cyrraedd ein targedau effeithlonrwydd o ran llai o staff. Bydd hyn yn golygu:

- timau gweinyddol lleol ac ardal yn gweithio mewn partneriaeth â barnwyr yn paratoi ac yn rhestru achosion, ac yn eu cynorthwyo yn ystafell y Llys;
- bydd y prosesau gweinyddol yn cael eu symleiddio a'u canoli mewn canolfannau gweinyddol rhanbarthol a chenedlaethol gydag atebion o safon ddiwydiannol o safbwynt rheoli ffeiliau ac argraffu ac anfon dogfennau;
- bydd cyfran gynyddol o'r gwaith yn electronig ac awtomataidd;
- byddir yn delio â mwy o ymholiadau mewn canolfannau galwadau ffôn a fydd yn gefn i'r gwasanaethau rhyngrwyd ac yn darparu gwasanaethau dros y ffôn.

Gwasanaethau gorfodi erbyn 2010 byddwn wedi symud o dimau gorfodi trosedol a sifil ar wahân i fod ag un gwasanaeth gorfodi cenedlaethol. Bydd hyn yn golygu:

- timau gorfodi yn y maes sydd â chyswllt amser real â'r swyddfeydd gweinyddol ac yn arbennig ag asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill drwy dechnoleg;
- defnyddio canolfannau galwadau ffôn i gasglu taliadau;
- gwell trefn casglu taliadau a rhoi cyfrif amdanynt yn golygu bod y ffordd o ymdrin ag arian yn cael ei gweinyddu'n fwy effeithlon.

Model y sefydliad sy'n datblygu

Mae'r model sefydliadol lefel uchel sy'n egino yn edrych fel hyn:



Mae'r model yn dangos y gwahanol opsiynau o ran gweinyddu'r gwaith sy'n dod i mewn i'r gyfundrefn gyfiawnder. Mae hefyd yn dangos pwysigrwydd sefydlu anghenion gwahanol ddefnyddwyr llysoedd a'r cysylltiad rhwng gwaith datblygu polisi a chyflenwi gweithredol sy'n rôl allweddol i'r unedau polisi yng nghanolfan gorfforaethol GLIEM.

Rhoi blaenoriaethau'r llywodraeth ar waith

Mae Strategaeth yr Adran Materion Cyfansoddiadol (AMC) wedi mynegi cyfres o flaenoriaethau sydd â'r nod o:

- ostwng lefelau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- diogelu pobl fregus; a
- darparu trefn gyflymach, fwy effeithiol a mwy cymesur i ddatrys anghydfodau.

Mae'r Swyddfa dros Ddiwygio Cyfiawnder Troseddol wedi datblygu fframwaith strategol i wella perfformiad cyfiawnder troseddol drwy wella'r ffordd y mae'r AMC, GLIEM, y Swyddfa Gartref a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gweithio. Rydym yn camu ymlaen i'r pum mlynedd nesaf eisoes yn datblygu rhaglen ddiwygio fawr sy'n adlewyrchu'r blaenoriaethau a'r strategaeth hyn:



Yn *"Making a Difference – Taking Forward Our Priorities"* a gyhoeddwyd ym mis Mai 2005 disgrifiodd yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Arglwydd Ganghellor y blaenoriaethau am y cyfnod i ddod. Y blaenoriaethau hyn sy'n gyrru ein Cytundebau Gwasanaeth Cyhoeddus.

Dod â mwy o droseddau gerbron llys

Yr ydym wedi cyfrannu at wella'r perfformiad o ran dwyn troseddau gerbron y llys ym mhob rhan o'r drefn cyfiawnder troseddol. Byddwn yn parhau i wneud hynny drwy gyfrwng cydweithrediad clos yn y Byrddau Troseddol Lleol a:

- bydd erlyniadau am y troseddau mwyaf difrifol yn trosglwyddo i lys y Goron o dan weithdrefn wedi'i symleiddio gyda chyfarwyddiadau awtomatig a wneir gan lysoedd ynadon yn cael eu monitro gan swyddogion hwyluso achosion;
- lle bo'r diffynnydd yn pledio'n ddieuog, bydd cydymffurfio â gorchmynion cyfarwyddiadau llys am baratoi ar gyfer treial yn cael ei orfodi'n llym;
- bydd erlyniadau am droseddau llai difrifol yn cael gwrandawiad lawer yn gyflymach mewn llysoedd ynadon. Byddwn yn gweithio gyda'r farnwriaeth i sefydlu llysoedd neu banelau pwrpasol lle bo hynny er budd cyfiawnder;
- byddir yn delio â pheth swmpwaith lefel isel, megis trwyddedau teledu, y dreth gyngor a rhai troseddau moduro, drwy ffyrdd amgen na fydd yn rhaid neilltuo amser ac adnoddau llys anghymesur iddynt.

Gwella ffydd y cyhoedd

Bydd ffydd y cyhoedd yn cynyddu yn sgil gwella perfformiad, ond rhaid gwneud mwy.

Byddwn yn:

- gosod safonau o ran gwasanaeth a chyfleusterau sy'n gydnaws â'r Cod Ymarfer newydd i Ddioddefwyr a Thystion a gyhoeddwyd yn 2005;
- rhoi mesur boddhad cwsmeriaid newydd ar waith ar draws y llysoedd i gyd o 2006;
- sicrhau bod y wybodaeth ynghylch cynnydd a chanlyniadau achosion troseddol yn cael ei lledaenu'n ddi-oed fel bod gan bob rhan o'r drefn cyfiawnder troseddol y wybodaeth ddiweddaraf er mwyn cynllunio, plismona a hysbysu'r cyhoedd
- gwella'r cyfleusterau a'r wybodaeth a ddarperir i reithwyr;
- datblygu cynigion ar gyfer llysoedd neu banelau pwrpasol i feysydd blaenoriaeth o fewn cyfiawnder cymunedol yn ystod 2006;
- ennill statws Nod Siarter corfforaethol a fydd yn cynnwys asesiad o "ganlyniadau cadarnhaol yn deillio o'n hymwneud â'r gymuned" erbyn 2008;
- rhoi llysoedd/panelau pwrpasol ar waith sy'n canolbwyntio adnoddau a phrofiad ar sicrhau gwell canlyniadau mewn achosion yn ymwneud â chamddefnyddio cyffuriau erbyn 2007.

Amddiffyn pobl fregus

Byddwn yn darparu'r cymorth angenrheidiol i'r farnwriaeth fel bod modd delio ag achosion plant cyn gyflymed â phosibl, a thrwy ddarparu'r lefelau cywir o gymorth i ddioddefwyr a thystion bregus.

Byddwn yn:

- rhoi Cynghorau Cyfiawnder Teulu lleol sy'n gyfrifol am hyrwyddo darpariaeth ryngasiantaethol ar waith;
- datblygu cynigion ar gyfer rôl eiriolaeth neu gymorth i helpu dioddefwyr troseddau difrifol;
- gweithredu'r Ddeddf Partneriaethau Sifil yn 2006;
- sicrhau bod cynnydd arwyddocaol yn y nifer o lysoedd sy'n ymdrin â thrais yn y cartref drwy ddulliau arbenigol;
- gweithio gyda'r farnwriaeth i leihau oedi mewn achosion Cyfraith Gyhoeddus sy'n ymwneud â'r Ddeddf Plant drwy gynyddu'r gyfran o achosion gofal yr ymdrinnir â hwy o fewn 40 wythnos i 10%
- gweithio gydag adrannau llywodraeth eraill i gynyddu ansawdd ac argaeledd tystion arbenigol erbyn 2007.

Datrys anghydfodau yn gynharach, ac yn fwy effeithiol a chymesur

Byddwn yn darparu cyfleusterau fel bod modd i anghydfodau gael eu datrys yn y ffordd orau i'r rhai sy'n ymwneud â hwy. Mewn rhai achosion bydd hyn drwy fesurau sy'n osgoi anghydfod, ac mewn eraill gallai olygu trefniadau amgen cyflymach na threial gwrthwynebus.

- Lle bo anghydfod yn codi ac nad achos llys yw'r ffordd orau o'i ddatrys, caiff pobl eu harwain tuag at ffyrdd eraill o ddatrys anghydfod, megis gwerthuso niwtral yn gynnar, cymodi a chyfryngu;
- Gwaith gyda'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol i ddatblygu ffyrdd o roi cymorth ariannol i asiantaethau a chyfreithwyr sy'n annog ffyrdd o osgoi dyled ac anghydfod;
- Lle nad oes llwybr amgen priodol yn lle achos llys, ymdrinnir ag achosion syml nad ydynt yn cael eu hamddiffyn yn effeithlon a syml, gan wneud y defnydd gorau o sianelau gweinyddol electronig a chanoledig sy'n lleihau costau ac yn cynyddu cyflymder;
- Lle bo achosion yn cael eu hamddiffyn, neu fod a wnelont â materion cymhleth, ymdrinnir â hwy gan arbenigwyr ar y lefel briodol.

Rydym yn datblygu dulliau newydd o ymdrin â nifer o feysydd blaenoriaeth, sy'n rhoi anghenion y dinesydd wrth galon y gyfundrefn gyfiawnder, a fydd yn gwella ein perfformiad ac yn arwain at newid gweddnewidiol.

Mae ein rhaglen Cynorthwyo ynadon i ddarparu cyfiawnder yn datblygu ffyrdd o roi gwell cymorth i'r 28,000 o ynadon sy'n gwirfoddoli i eistedd yn ein llysoedd. Mae Papur Gwyn a gyhoeddwyd eleni yn nodi sut y bydd eu heffeithiolrwydd a'r parch tuag atynt yn cael eu cynyddu, a bydd yn cynnwys ffyrdd o gael gwared â baich swmpwaith sylweddol oddi ar y llysoedd.

Bydd ein rhaglen i ddiwygio gwasanaethu ar reithgor yn datblygu ffyrdd o wella'r profiad o wasanaethu fel rheithiwr ac yn sicrhau ei bod yn cael ei gwneud yn glir fod cyfraniad rheithiwr yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

Bydd ein rhaglen cynnal dioddefwyr troseddau yn sicrhau bod ein hadeiladau llys yn darparu cyfleusterau cyfforddus a diogel, ar wahân, i ddioddefwyr a thystion. Byddwn yn datblygu cynigion i ddarparu cyngor cyfreithiol i ddioddefwyr troseddau mewn achosion difrifol, ac yn sicrhau bod dioddefwyr a pherthnasau mewn troseddau difrifol yn cael llais yn yr achos a hawl i gynrychiolaeth ac eiriolaeth.

Byddwn yn sicrhau parch tuag at awdurdod y llys drwy ein rhaglen Orfodi a fydd yn rhoi gwasanaeth gorfodi cenedlaethol ar waith yng nghyswllt holl weithgarwch gorfodi'r llysoedd, a thrwy fesurau i wella presenoldeb yn y llys yn cynnwys datblygu cynigion i gynnal treialon in absentia.

Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid cyfiawnder troseddol i adolygu'r ffordd yr ymdrinnir â threialon am dwyll. Bydd hyn yn cynnwys camau i roi ffocws i'r cyflwyno, i greu canolfannau arbenigol, i adolygu'r taliadau ac i ddiwygio'r gofynion ar reithgor.

Ein strategaeth er mwyn gwireddu'r newid hwn

Bydd cynlluniau, rhestrau a chostiadau adnoddau manwl yn cael eu llunio fel rhan o'r gweithgareddau i reoli'r rhaglen a'r prosiectau. Bydd y strategaeth fusnes yn darparu'r agenda gyffredinol ar gyfer newid a bydd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd, a'i diweddaru pan fydd raid. Mae'r gweithgareddau allweddol o ran y newidiadau busnes yn cael eu rhestru'n fyr isod:

Rheoli achosion yn effeithiol

Byddwn yn darparu gwell systemau i gynorthwyo'r farnwriaeth i reoli a rhestru achosion fel bod achosion sy'n barod yn dod i dreial cyn gyflymed â phosibl ar yr adeg benodedig i leihau oedi.

Byddwn yn:

- rhoi Fframwaith Hwyluso Achosion Troseddol ar waith eleni;
- rhoi offeryn cynllunio dyddiaduron i swyddogion rhestru troseddol yn 2006;
- datblygu a graddol gyflwyno system hwyluso achosion troseddol traws-asiantaethol erbyn 2007;
- datblygu rhwydwaith o ganolfannau llysoedd teulu, rhai o fewn canolfannau llys presennol;
- sefydlu swyddogion hwyluso achosion ym mhob llys troseddol;
- treialu swyddogion hwyluso achosion mewn llysoedd teulu yn 2006;
- graddol gyflwyno un system cofnodion achosion yn y llysoedd teulu erbyn 2008;
- treialu system TG rheoli achosion i'r Llys Masnachol yn 2006.

Moderneiddio'r ffordd o gyflenwi gwasanaethau

Byddwn yn moderneiddio ein gwasanaethau i wella mynediad at gyfiawnder ac i gynyddu'r dewis a'r hwylustod i gwsmeriaid. Byddwn yn darparu gwasanaethau sy'n bodloni disgwyliadau uwch cwsmeriaid, a byddwn yn defnyddio technoleg newydd i wneud pethau mewn ffyrdd newydd. Mae'r tabl isod yn dangos maint y cyfle.

Rhyngweithio â Chwsmeriaid	Mecanwaith Cyfredol	Cyfle newydd
Gwybodaeth ac arweiniad	Ffôn Cyhoeddiadau post Y We	Llinellau cymorth pwrpasol Asiantaethau cynghori sydd â nod ansawdd
Hawliadau newydd	Post Hawliadau arian electronig (Money Claims On Line (MCOL) a Chanolfan Hawliadau) Swyddfa llys leol	Y rhyngrwyd i bob math o hawliad Trosglwyddo data am dai a hawlwyr eraill o bwys Unrhyw swyddfa llys
Gofyn am ddyfarniad	Post Money Claims On Line	Ffôn Y rhyngrwyd i bob hawliad arian
Cychwyn camau gorfodi	Post Swyddfa llys leol	Ffôn Y rhyngrwyd Unrhyw swyddfa llys
Newid manylion achos	Post	Ffôn Y rhyngrwyd
Taliadau	Sieciau, Archebion Post drwy'r post a thros y cownter Rhai systemau talu electronig ansafonol mewn ardaloedd	Talu Electronig drwy'r Wlad Talu dros y rhyngrwyd Cardiau Talu mewn unedau masnachol
Ymholiadau am achosion	Post Ffôn	Hynt achosion ar y rhyngrwyd Systemau ffeilio a chyflwyno dogfennau a rennir
Ffeilio dogfennau	Post Yn bersonol Rhai dros yr e-bost	Ffurflenni rhyngrwyd Gwasanaeth e-ffeilio
Ymateb i wŷs Rheithgor	Post	Ffôn Y rhyngrwyd

Byddwn yn:

- datblygu'r Llinell Gymorth Gyfryngu Genedlaethol ymhellach erbyn 2005;
- ynghyd â'r Adran Addysg a Sgiliau, yn ehangu'r cyfleusterau cymodi yn y llysoedd, ac yn datblygu trefniadau newydd i leihau'r gwrthdaro mewn achosion teulu a ymleddir;
- datblygu ffyrdd newydd o ymdrin â chyfryngu mewn achosion sifil a theulu yn ystod 2006;
- rhoi Fframwaith Cenedlaethol o Safonau Gwasanaeth Cwsmeriaid ar waith yn ystod 2006;
- treialu trafodion dros y ffôn yn Swmp Ganolfan y Llysoedd Sirol yn ystod 2006;
- rhoi system ar waith sy'n hwyluso rhannu gwybodaeth amser-real drwy gyfrwng Xhibit a Libra a fydd yn sicrhau llai o oedi, llai o droseddu drwy wella gwybodaeth weithrediadol a gwella effeithiolrwydd. Yn unol ag Argymhelliad 7 Bichard, byddwn yn datblygu cysylltiadau uniongyrchol â Chyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu er mwyn gwella ansawdd y data a sicrhau bod swyddogion yr heddlu'n meddu ar wybodaeth gywir am statws mechnïaeth er mwyn plismona'r strydoedd a darparu data a fydd yn gefn i'w hymchwiliadau.
- gweithio gyda'r erlynwyr mewn achosion difrifol a chymhleth i ddatblygu achos busnes yng nghyswllt technegol sy'n ei gwneud yn haws cyflwyno tystiolaeth ddogfennol a chlyweledol fel ei bod yn haws i ymarferwyr ddod o hyd i ddeunydd ac i reithwyr ei ddilyn, gan gwtogi hyd treialon;
- digideiddio'r gwaith o gofnodi tystiolaeth mewn ystafelloedd llys troseddol erbyn 2007 i wella'r dulliau adalw tystiolaeth lafar a chynorthwyo barnwyr i grynhoi achos ac mewn gwrandawiadau apêl;
- gwella Money Claims On Line (MCOL) a'r Ganolfan Cynhyrchu Hawliadau, a mynd ati'n ddiwyd i'w marchnata, gan gynyddu cyfran yr hawliadau arian a gychwynnir yn electronig gyda'r nod o gyrraedd 250,000 o hawliadau'r flwyddyn drwy MCOL erbyn 2008, a gostwng y gost o weinyddu'r hawliadau hynny 40%;
- datblygu cynigion ar gyfer gwasanaeth e-ffeilio dogfennau mewn partneriaeth â chyflenwr trydydd parti neu ag asiantaethau eraill yn y sector cyhoeddus;
- rhoi gwasanaeth rhyngrwyd ar waith ar gyfer hawliadau yn ymwneud â rhent a morgeisi tai, Possession Claims On Line (PCOL) erbyn 2006, a hynny i gyfrif am 100,000 o hawliadau erbyn 2008;
- ehangu cwmpas y Gofrestr Dyfarniadau Llysoedd Sirol i gynnwys dirwyon a dyfarniadau Uchel Lys erbyn 2006, ac erbyn 2008 cynyddu'r data sy'n cael ei ddal er mwyn gwella arferion benthyca a gorfodi;
- datblygu cynigion yn ymwneud â dulliau talu electronig cenedlaethol ar gyfer dirwyon a dyledion erbyn 2008;
- gweithio tuag at y gallu i gynnig gwasanaeth i ddinasyddion o unrhyw swyddfa llys erbyn 2010.

Symleiddio'r broses a'r gweithdrefnau

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r barnwyr a'r pwyllgorau rheolau gweithdrefnol i wneud cyfundrefn y llysoedd yn haws i'w defnyddio ac i sicrhau bod y prosesau yn glir, yn haws i'w deall ac yn cael eu parchu gan y cyhoedd.

Byddwn yn:

- gwella'r addysg, yr arweiniad a'r cyngor i ddefnyddwyr y llysoedd a dinasyddion;
- adolygu ein rheolau gweithdrefnol i nodi ffyrdd o wneud y gweithdrefnau'n symlach i ddefnyddwyr y llysoedd ac yn haws i'w gweinyddu;
- gwella a symleiddio'r drefn hawliadau bychain yn ystod 2006;
- gweithio gyda'r Pwyllgor Rheolau Gweithdrefnau Teulu i gysoni ac integreiddio rheolau achosion teulu;
- adolygu rheolaeth achosion sifil sy'n cael eu hamddiffyn a gweithredu unrhyw newidiadau yn 2007;
- datblygu opsiynau ar gyfer gweithdrefn un cam gogyfer â hawliadau arian, gyda'r posibilrwydd o ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch yr opsiynau yn 2007;
- cwblhau'r diwygiadau i'r trefniadau gorfodi, sy'n cynnwys achosion Gorchmynion Gweinyddu ac Atafaelu Enillion, erbyn 2008;
- ystyried creu un awdurdod sifil ar ôl 2009.

Gweinyddiaeth effeithlon

Byddwn yn sicrhau'r gwerth mwyaf am arian i'r trethdalwr a'r ffidalwr. Byddwn yn rheoli anghenion gwahanol grwpiau o gwsmeriaid mewn ffyrdd sy'n cyfateb yn nes i'w hanghenion a byddwn yn creu model cyflenwi gwasanaethau fforddiadwy.

Byddwn yn:

- cynyddu'r gyfran o waith sy'n cael ei gwneud drwy'r swmp ganolfan bresennol a gwasanaethau electronig drwy dargedu grwpiau penodol o ddefnyddwyr y llysoedd a'r proffesiynau;
- datblygu cynlluniau i ganoli'r gwaith o gychwyn pob hawliad am arian a chodi pob gwarant yn Swmp Ganolfan y Llysoedd Sirol erbyn 2007;
- gweithredu fersiynau wedi'u diweddaru o'n systemau cofnodion achosion a bydd hynny o gymorth yn y gwaith o gyfnerthu a sefydlu hyblygrwydd gweinyddol yn 2007;
- gwerthuso'r cyfle i gyfnerthu gweinyddiaeth talu dirwyon, cosbau penodedig a dyledion i ganolfannau cenedlaethol neu ranbarthol erbyn 2008;
- cynyddu'r defnydd o'n gwasanaethau electronig drwy orchymyn bod sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn eu defnyddio erbyn 2008;
- ymgynghori ar gynigion i arallgyfeirio swmpwaith o'r llysoedd ynadon i asiantaethau eraill neu i swmp ganolfannau;

- gweithio gydag eraill i sefydlu'r potensial i gynyddu nifer y troseddau y mae modd codi Hysbysiadau Cosb Benodedig amdanynt;
- gweithio gyda'n cyflenwyr TG newydd i ddatblygu atebion ar gyfer dogfennau'r llys o ran eu hargraffu a'u hanfon ar raddfa fawr neu o ran eu caffael yn allanol;
- cyfnerthu'r gwasanaethau gweinyddol ar lai o safleoedd erbyn 2010;
- ystyried gorchymyn bod cyrff eraill priodol yn defnyddio gwasanaethau electronig er mwyn cynyddu'r defnydd ohonynt erbyn 2010.

Sicrhau cydymffurfiaeth a gorfodaeth effeithiol

Byddwn yn sicrhau y cydymffurfir â gorchmynion a chosbau ariannol a bennir gan y llysoedd a'u bod yn cael eu gorfodi; byddwn yn delio'n gyflym ac yn effeithiol â diffygdalwyr.

Byddwn yn:

- datblygu cynigion am ganolfannau rhanbarthol galwadau ffôn ar gyfer talu dirwyon a dyledion yn ystod 2006;
- rhoi'r gwasanaeth gorfodi cenedlaethol ar waith i sicrhau'r arferion gorau, perfformiad da a gweithio'n agosach gydag asiantaethau gorfodi eraill mewn rhanbarth braenaru yn 2006, ac mewn mannau eraill yn 2007;
- darparu mecanweithiau newydd i orfodi Gorchmynion Cyswllt;
- datblygu cynlluniau i roi technoleg symudol ar waith yn genedlaethol ar gyfer swyddogion gorfodi yn 2008;
- gweithio tuag at roi un cofnod electronig ar waith ar gyfer pob cyfrif dirwy sy'n cael ei ddal yn enw diffygdalwr dirwyon erbyn 2010.

Y sialensiau sydd yn ein hwynebu

Creu sefydliad a diwylliant newydd

Mae creu GLIEM wedi dod â 43 o gyrff ynghyd yn un sefydliad. Yn hanesyddol mae hyn wedi golygu gwahanol lefelau gwasanaeth ar draws cyfundrefn y llysoedd, a rhywfaint o ddyblygu ystadau, technoleg ac adnoddau eraill.

Er mwyn ymateb i'r her strategol hon byddwn yn adeiladu ar yr arferion, y sgiliau a'r asedau gorau o'r gorffennol, yn deall y galwadau a'r blaenoriaethau i'r dyfodol, ac yn sicrhau bod GLIEM yn canolbwyntio ar anghenion amrywiol pobl, cymunedau a chymdeithas, a bod iddo ddiwylliant sy'n darparu gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid.

Diwallu'r galw a chynnal perfformiad

Mae rhagfynegi'r galw yn gymhleth. Mae GLIEM yn adeiladu capasiti modelu a rhagfynegi ychwanegol er mwyn i'r sefydliad unedig allu asesu tueddiadau'r llif gwaith yn y llysoedd. Fodd bynnag, gallwn wneud rhai rhagdybiaethau cynllunio ar sail rhai o'r tueddiadau cyfredol.

Cyfiawnder Troseddol

Ffactorau Allweddol:

- Mae'r lefelau troseddu yn gostwng drwyddynt draw a dengys y rhagamcanion faich achosion troseddol sefydlog neu un sy'n cynyddu fymryn;
- Gwelliant parhaus o ran gorfodaeth effeithiol;
- Effeithir ar wyth ardal cyfiawnder troseddol yn Ne-ddwyrain Lloegr gan y twf poblogaeth sy'n cael ei gynllunio;
- Dengys tystiolaeth fod ymddygiad gwrthgymdeithasol ar ei waethaf yn y cymunedau tlotaf. Mae'r mynegai amddifadedd cymdeithasol yn dal i roi ffocws i fuddsoddi y rhoddir blaenoriaeth iddo wrth ymdrin â chyfiawnder cymunedol;
- Mae'r 1% mwyaf costus yn ôl cyfaint o achosion yn Llys y Goron i gyfrif am 28% o'r holl gyllideb cymorth cyfreithiol troseddol, neu 50% o holl wariant cymorth cyfreithiol Llys y Goron;
- Mae'r gyfradd treialon aneffeithiol yn Llys y Goron a'r llysoedd ynadon yn dal i wella a chyrhaeddodd y llinell sylfaen darged yng Nghymru a Lloegr ym mis Mai 2005;
- Galwyd ychydig llai na 410,000 o bobl i wasanaethu fel rheithwyr yn 2005, ac o'r rheini eisteddodd 181,000 ar reithgor.

I ymateb i'r her strategol rhaid inni sicrhau bod y gallu gennym i ddelio ag unrhyw gynnydd yn y nifer o achosion troseddol sy'n cael eu dwyn gerbron y llysoedd gan yr asiantaethau cyfiawnder troseddol, a sicrhau cyn lleied â phosibl o oedi i ddioddefwyr a thystion. Byddwn yn cynorthwyo'r farnwriaeth i reoli achosion a'u dwyn i dreial yn y cyfnod byrraf sy'n gydnaws â buddiannau cyfiawnder. Byddwn yn rhoi dulliau newydd o ymdrin â threialon am dwyll ar waith ac ynghyd â'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol byddwn yn datblygu dulliau newydd i ymdrin â thaliadau mewn achosion troseddol. Byddwn yn canolbwyntio ein buddsoddiad ar ein strategaeth ystadau yn unol â'r meysydd blaenoriaeth.

Cyfiawnder teulu a sifil

Ffactorau Allweddol:

- er eu bod yn cynyddu rhywfaint erbyn hyn, mae achosion sifil wedi gostwng 20% ers y diwygiadau cyfiawnder sifil, ac mae disgwyl i gynlluniau pellach i hybu datrys problemau'n gynharach leihau'r baich gwaith cyfredol o hyd at 10% pellach erbyn 2010. Yn y cyd-destun hwn rhaid ad-drefnu ein strwythurau gweithredu i ddarparu gwasanaethau fforddiadwy ac effeithlon, a rhaid datblygu ein strategaeth ffioedd i sicrhau'r gyfatebiaeth briodol rhwng costau ac incwm;
- mae'r baich achosion yn yr Uchel Lys ym Mainc y Frenhines ac mewn Siawnsri wedi gostwng dros y pedair mlynedd diwethaf, ond mae'r darlun ar draws yr adrannau drwyddynt draw yn un cymhleth. Mae gan rai meysydd yn yr Uchel Lys gyfran uwch o achosion hir a chymhleth a gall amrywiadau bach iawn yn nifer yr achosion o'r mathau hyn arwain yn gyflym at bwysau neu orlethu mewn meysydd arbenigol tra y gall newidiadau mewn polisi a deddfwriaeth gynyddu'r baich gwaith yn gyflym.
- mae achosion teulu yn gostwng ar hyn o bryd. Mae achosion ysgaru wedi gostwng yn y tair blynedd diwethaf i 167,000 o ddeisebau, ac mae'n dal i fod 7% islaw'r niferoedd uchaf a gafwyd yn 1993. Yn 2004 gostyngodd nifer y ceisiadau Cyfraith Gyhoeddus 3% a gostyngodd nifer y ceisiadau Cyfraith Breifat 7%, er bod nifer y gorchmynion a wnaed wedi cynyddu 3% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

I ymateb i'r her strategol rhaid inni ymateb i'r newidiadau yn y galw mewn nifer o ffyrdd.

- Cydnabod nad mynd i'r llys yw'r ffordd orau yn aml o ddatrys anghydfod a bod angen gwybodaeth a chyngor ar bobl yn gynnar;
- Sicrhau bod y sylfaen gostau cyn ised ag sy'n gydnaws â darparu gwasanaeth da a mynediad at gyfiawnder;
- Sicrhau ein bod yn darparu'r hyn y mae ei wir angen ar bob grŵp o ddefnyddwyr gwahanol ac yn canolbwyntio adnoddau ar ddiwallu'r angen hwnnw yn hytrach nag ar ddarpariaeth "yr un ateb i bawb" yn seiliedig ar ein hadeiladau ni;

- byddwn yn gweithio gyda'r farnwriaeth er mwyn gallu cynllunio a dyrannu busnes barnwrol yn effeithiol, gan sicrhau bod y gwaith yn cael ei gategoreiddio'n briodol ar y lefel iawn, yn cael ei gyfatebu ag arbenigedd barnwrol, a bod barnwyr yn cael eu defnyddio'n effeithiol er mwyn ymateb i'r pwysau gwaith. Mae'r olaf o'r rhain yn golygu bod angen i farnwyr chwarae rhan effeithiol yn y broses cynllunio busnes.
- mewn achosion teulu, sicrhau ymyrraeth gynharach, llai o ysgrifennu adroddiadau, canolbwyntio mwy ar ddatrys anghydfod a datrys mwy o achosion drwy gydsyniad, yn ogystal â sicrhau yr ymdrinnir ag achosion ar y lefel gywir;
- sicrhau nad yw capasiti ac adnoddau yn cael eu gwastraffu ar weithgareddau y byddai modd eu gwneud yn well yn rhywle arall.

Darparu mynediad at gyfiawnder mewn ffyrdd newydd

Mae mynediad at gyfiawnder yn hawl ddynol sylfaenol, ond mae'r model traddodiadol ar gyfer mynediad at gyfiawnder yn un cyfyngedig. Bu rhagdybiaeth fod darparu mynediad at gyfiawnder yn seiliedig ar ddefnyddio cwrt; mae mynediad at wasanaethau wedi cael ei ddiffinio felly gan leoliad corfforol.

I ymateb i'r her strategol rhaid inni ystyried mynediad at gyfiawnder mewn termau ehangach:

- Darparu mwy o fynediad at gyfiawnder heb gynnydd yn y gost drwyddi draw drwy ddefnyddio technoleg newydd sy'n darparu mwy o hwylustod ac yn lleihau'r angen i fynd i gwrt;
- Deall anghenion gwirioneddol cyfiawnder lleol, blaenoriaethau'r gymuned a phwysigrwydd yr 28,000 o ynadon sy'n gwasanaethu eu cymuned leol ac adlewyrchu hynny yn y blaenoriaethau ar gyfer cyfiawnder cymunedol;
- Wrth gynllunio sut yr ydym yn darparu gwasanaethau mae angen inni wahaniaethu'n fwy manwl rhwng yr hyn y mae'n rhaid ei gyflenwi'n lleol a'r hyn y gellir ei gyflenwi dros y ffôn neu'r rhyngrwyd, neu ei ganoli o bosibl;
- Mewn rhai achosion mwy cymhleth neu ddifrifol, mae angen inni gyflawni'r lefelau priodol o arbenigedd drwy ganoli gwasanaethau arbenigol mewn llai o ganolfannau, yn yr un modd yn fras ag y mae gwasanaethau meddygol yn amrywio o wasanaethau meddygon teulu lleol i ysbytai arbenigol. Rydym eisoes yn canoli gwasanaethau "unwaith mewn oes" o'r fath mewn achosion teulu cymhleth er mwyn sicrhau ansawdd uchel, er enghraifft mewn achosion yn ymwneud â gofal plant neu fabwysiadu.

Buddsoddi a chyllid

Rydym yn wynebu sialensiau ariannol sylweddol wrth roi ein gweledigaeth ar waith, yn cynnwys pwysau o ran effeithlonrwydd a sicrhau manteision. Mae gennym dargedu heriol o ran adennill ffioedd ac agenda newid uchelgeisiol. Byddwn yn datblygu dadansoddiad cost a budd manwl ac achosion busnes ar gyfer proses CSR2007.

I ymateb i'r her strategol rhaid inni gadw at weledigaeth weddnewidiol, ond gweithredu mewn modd esblygol.

Byddwn yn:

- creu arbedion effeithlonrwydd o fewn ein hadnoddau cyfredol a fydd yn ein galluogi i gymryd y camau cynnar ar hyd rhaglen weddnewidiol. Bydd hyn yn rhyddhau mwy o adnoddau dros amser i barhau â'r gweddnewidiad;
- gwella effeithiolrwydd a gwerth am arian ein gweithgarwch caffael;
- dynodi achosion busnes a rennir ar draws yr awdurdodaethau troseddol, sifil a theulu a rhaglenni, ac ar y cyd â chyrff partner yn y sector cyhoeddus, megis yr Asiantaeth Dribiwnlysoedd newydd, y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, Llysoedd Crwneriaid ac asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill;
- datblygu dull tecach o ymdrin ag adennill ffioedd sy'n sicrhau gwell cyfatebiaeth rhwng costau a refeniw ac yn rhyddhau adnoddau i ddatblygu gwasanaethau mwy effeithlon;
- ystyried modelau busnes amgen sy'n denu buddsoddiad oddi wrth drydydd partïon ac yn creu refeniw ar eu cyfer.

Cyrraedd ein targedau drwy weithio gyda phartneriaid

Mae perfformio'n dda, newidiadau yn y gyfundrefn gyfiawnder, gweithrediad y llysoedd a gwasanaeth i'r cyhoedd yn dibynnu ar weithio drwy bartneriaeth ag asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill, y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS) ac asiantaethau eraill, y proffesiynau, y sector gwirfoddol a'r sector nid er elw a'r rhai sy'n gweithio dros y gymuned.

Rhaid inni ymateb i'r her strategol mewn dwy ffordd. Yn gyntaf rhaid inni weddnewid ein perthynas gyda phartneriaid allweddol a defnyddwyr y llysoedd er mwyn gwella'r hyn a wnawn. Bydd hyn yn cynnwys datblygu dulliau ar y cyd o gyflenwi gwasanaethau sydd o fudd i ddefnyddwyr y llysoedd. Mae'n golygu cydweithio i sefydlu prosesau sy'n addas i ddefnyddwyr y llysoedd, gweithio ar y cyd i sicrhau canlyniadau yn hytrach na chydymffurfio â phroses, gweithio gyda'n gilydd ar feysydd blaenoriaeth, a gweithio gydag asiantaethau lleol i sicrhau canlyniadau da i'r gymuned.

Yn ail, i fodloni disgwyliadau dinasyddion, mae angen inni ddarparu gwasanaethau drwy bartneriaeth a thrwy gyd-fuddsoddi gydag asiantaethau a sefydliadau eraill.

Strategaethau ategol

Bydd y strategaeth fusnes yn gymorth i ddatblygu rhaglen newid ar gyfer GLIEM a nifer o strategaethau ategol i'r meysydd allweddol canlynol:

Ein strategaeth pobl

Dim ond oherwydd y bobl sy'n gweithio ynddo y bydd GLIEM yn sefydliad gweithredol llwyddiannus, ac, felly, ein strategaeth adnoddau dynol yw'r strategaeth ategol bwysicaf.

Rydym am wneud GLIEM yn lle da i weithio ynddo i bawb sy'n ymuno â ni, ac rydym am i gysylltiad â'n pobl fod yn brofiad da i'r rhai sy'n defnyddio'r llysoedd. Nid ydym yn credu y caiff hynny ei wireddu heb wrando ar ein pobl a dysgu oddi wrthynt, a'u grymuso i ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf.

Mae ein strategaeth fusnes yn pennu'r cyfeiriad ar gyfer datblygu Strategaeth Adnoddau'r Gweithlu (AG) a fydd yn:

- sicrhau bod GLIEM yn gyflogwr gwasanaeth cyhoeddus y mae pobl yn ei ddewis;
- sicrhau bod ein staff yn gynrychiadol a'u bod yn deall y cymunedau amrywiol yr ydym yn eu gwasanaethu;
- sicrhau rheolaeth effeithiol dros berfformiad ledled GLIEM;
- rhoi system wobrwyo ar waith a fydd yn ein galluogi i recriwtio, cadw a symbylu staff o'r ansawdd gofynnol i gyflenwi ein busnes;
- datblygu strategaethau ar gyfer ein pobl a fydd yn eu cynorthwyo drwy newidiadau busnes;
- rhoi'r Rhaglen Sgiliau Proffesiynol i'r Llywodraeth ar waith i sicrhau'r lefel a'r cymysgedd iawn o sgiliau a gwella'r cyfleoedd i ddatblygu a symud ymlaen;
- darparu dysgu a datblygiad priodol ar gyfer ein pobl er mwyn:
  - Cynorthwyo i ddatblygu dull traws-awdurdodaethol o ymdrin â gweithio mewn canolfannau amlbwrpas sy'n canolbwyntio ar well gwasanaeth a chyfleusterau i ddefnyddwyr y llysoedd;
  - Cynorthwyo staff sy'n delio â gwasanaethau awtomataidd, ffôn ac electronig fel eu bod yn gallu darparu gwybodaeth am hynt achosion yn gyflym;
  - Cynorthwyo staff y mae angen gwybodaeth arbenigol arnynt i gyflawni eu rôl, megis cynghorwyr cyfreithiol, swyddogion rhestru, swyddogion hwyluso achosion a'r rhai sy'n ymdrin â mathau neilltuol o achosion yn unig ac yn helpu gyda dioddefwyr, tystion a rheithwyr;

- Datblygu'r arweinwyr a'r rheolwyr o fewn GLIEM a nodi arweinwyr newydd y dyfodol.

- Sicrhau, drwy Adolygiad Cyflogau a Graddio, system gyflogau deg a chyfiawn ar draws yr AMC a GLIEM yn ystod mis Awst 2006.

Technoleg Gwybodaeth

Rydym wedi etifeddu tirwedd TG anodd a nodweddir gan lu o gymwysiadau wedi dyddio sy'n dyblygu swyddogaethau. Er bod prosiectau cyfredol yn rhoi sylw i hyn i ryw raddau, mae yna faterion strategol allweddol:

- mae gennym gronfeydd data newydd a fydd ar gael cyn bo hir sydd wedi cael eu diweddaru'n ddigonol i roi dewisiadau inni o ran pa systemau yr ydym am barhau â hwy fel opsiynau prif ffrwd a pha rai i'w targedu i gael eu dirwyn i ben;

- bydd ein seilwaith modern yn cynnal cymwysiadau busnes "y gorau o'r brîd", ond nid yw'n cynnwys ein holl safleoedd ac nid yw wedi cael ei integreiddio eto;

- mae gennym wasanaethau rhyngwyd sydd â chapasiti dros ben, ac mae gennym gyfle i'w datblygu ymhellach;

- bydd trefniadau cytundebol newydd gyda chyflenwyr yn sicrhau gwell gwerth am arian a chyfle i ddatblygu partneriaethau effeithiol. Bydd Rhaglen Cytundebau Arloesi a Chymorth yr Adran yn dyfarnu contractau newydd am dechnoleg i gyflenwyr yn 2006.

Mae ein strategaeth fusnes yn pennu'r cyfeiriad ar gyfer datblygu strategaethau Gwasanaeth Gwybodaeth/Technoleg Gwybodaeth ac e-Wasanaeth a fydd yn:

- gymorth i ddatblygu dull traws-awdurdodaethol o ymdrin â datblygu system neu systemau sy'n gymorth i reoli ffeiliau achosion, hwyluso achosion a gwrandawiadau llys mewn llysoedd a thribiwnlysoedd;

- sicrhau arbedion effeithlonrwydd drwy awtomeiddio, sianelau cyflwyno electronig ac atebion argraffu ac anfon dogfennau electronig;

- ehangu'r defnydd o'r gwasanaethau rhyngrwyd presennol a gwasanaethau'r swmp ganolfan i gynnwys gweithdrefnau llys yn Llys y Goron a'r llysoedd ynadon;

- datblygu cysylltiadau electronig â thimau maes fel eu bod yn gallu cyrchu at ddata mewn amser real wrth ddelio â chwsmeriaid wyneb yn wyneb;

- rhoi mynediad at bob cofnod o unrhyw le, er mwyn rhoi hyblygrwydd o ran ble y gwneir y gweinyddu, ac i'n galluogi i ddelio'n well â'r rhai sy'n rhyngweithio llawer â'r system;

- lleihau'r costau cymorth TG, a lleihau'r dyblygu ar systemau busnes, gan ddethol ac uwchraddio'r systemau "gorau o'r brîd" fel eu bod yn disodli systemau sydd, er eu bod wedi dyddio, yn cyflawni tasgau hanfodol.

Yr Ystâd

Mae ein strategaeth fusnes yn awgrymu y bydd y galw'n parhau i fod yn uchel yn y llysoedd troseddol metropolitan er gwaethaf y gostyngiad sy'n cael ei ragamcanu mewn lefelau troseddu[1], ac y bydd y pwysau o du achosion mwy cymhleth yn cynnal y pwysau ar Lys y Goron a hyd yn oed yn ei gynyddu.

Mae'r strategaeth fusnes yn dadlau yn erbyn gweithredu ar sail "yr un ateb i bawb" o ran cyflenwi gwasanaethau, ac mae hynny yr un mor wir wrth inni ymdrin ag ystadau. Mae gwahaniaethau sylweddol rhwng y modelau ystadau mewn ardaloedd unigol, yn rhannol oherwydd gwahaniaethau demograffig, ac yn rhannol oherwydd maint rhai o'r ardaloedd.

Rydym yn wynebu sialensiau anodd o ran yr ystadau, gan nad ydynt mwyach yn "addas i'w diben" a bod llawer iawn o waith cynnal a chadw wedi cronni.

Bydd ein strategaeth ystadau yn ategu'r strategaeth fusnes drwy:

- leihau'r costau ar weinyddu ein hystadau;
- erbyn 2010 byddwn wedi cyfnerthu ein hystâd heb danseilio gwasanaethau lleol;
- sicrhau bod gwell cyfleusterau a chyfleusterau ar wahân ar gael i ddioddefwyr, tystion a'r rhai sy'n agored i niwed lle bo hynny'n briodol;
- cynorthwyo i ddatblygu rhwydwaith arbenigol o ganolfannau llysoedd teulu;
- lleihau'r nifer o safleoedd pencadlys, safleoedd rhanbarthol a safleoedd cymorth ardal;
- cynyddu hyblygrwydd yr ystâd newydd a'r ystadau presennol o ran defnydd ar gyfer gwrandawiadau a gweinyddiaeth, a phartneriaethau posibl gyda Thribiwnlysoedd;
- datblygu safleoedd swyddfeydd cefn, yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer cyfleusterau swyddfeydd cefn a rennir, a hynny ar draws yr Adran Materion Cyfansoddiadol ac asiantaethau eraill o bosibl.

Ffioedd

Mae gennym ymrwymiad penodol yn ystod SR2004 i:

- ddychwelyd i sefyllfa o adennill costau yn llawn (heb gynnwys achosion o esemptiad a dileu) i'r llysoedd sifil;
- cyrraedd cyfradd adennill o 66% drwyddi draw i'r llysoedd teulu;
- sefydlu'r llysoedd ynadon ar sylfaen adennill ffioedd sy'n gyson â'r llysoedd sifil.

Mae Adran 92 o Ddeddf y Llysoedd 2003 yn cyflwyno un pŵer pennu ffioedd i'r tair haen o lysoedd. Mae'r senedd yn craffu ar y pŵer hwn yn awr a rhaid i'r Arglwydd Ganghellor ystyried mynediad i'r llysoedd wrth bennu ffioedd.

[1] Cynllun Strategol y Swyddfa Gartref 2004

Mae Rhaglen Ffioedd Sifil wedi cael ei sefydlu i wireddu'r strategaeth tymor hir a fydd yn:

- golygu bod costau'n cael eu hadennill yn llawn;
- diogelu mynediad at gyfiawnder;
- fforddiadwy o fewn terfyn gwariant yr adran;
- digon hyblyg i ateb newidiadau yn y galw.

Bydd y strategaeth yn ceisio sicrhau gwasanaethau sy'n cynrychioli gwerth am arian, ac yn dal y ddysgl yn wastad rhwng costau'r system a'i hincwm. Mae'r rhaglen yn cynnwys pedwar prosiect cydgysylltiedig:

- Prosiect Strwythurau Ffioedd – newid o lwytho ffioedd ar ddechrau proses i bwyntiau codi ffioedd yn ystod y broses sy'n adlewyrchu'r camau o ran costau yn well;
- Mynediad at Gyfiawnder – datblygu system gyffredin i ddileu ffioedd, gan sefydlu lefelau incwm a chyfalaf priodol a meini prawf didynnu;
- Sicrhau Adennill Costau – cynllunio'r codiadau yn y ffioedd presennol sy'n ofynnol er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau ar hyn o bryd o dan SR2004;
- Model Costio Diwygiedig – adolygiad sylfaenol o'r systemau gwybodaeth sy'n cael eu defnyddio i fwrw cyfrif o'r costau llawn ac i roi cyfrif am y ffioedd a adenillir.

Y Camau Nesaf

Rydym wedi nodi'r egwyddorion strategol allweddol ac wedi cynnig gweledigaeth strategol i'r sefydliad ac wedi nodi'r cynlluniau sy'n ofynnol i dywys y weledigaeth honno ymlaen ar lefel uchel. I fwrw ymlaen â'r strategaeth rydym yn symud i gyfnod a fydd yn darparu:

- gwaith cynllunio manwl;
- amcangyfrifon ac achosion busnes;
- asesiad o'r manteision;
- strwythurau rheoli'r rhaglen;

Bydd hyn yn ein galluogi wedyn i sicrhau bod y cynlluniau yn cael eu gweithredu fel rhannau o raglenni newid sy'n cefnogi'r cyfeiriad. Bydd angen inni barhau i adolygu'r strategaeth, nodi pryd y mae angen penderfyniadau strategol allweddol, a diweddaru'r strategaeth a'r cynlluniau yn ôl y gofyn.

Gallai'r broses hon olygu bod rhai o'r prosiectau posibl yn cael eu dileu fel rhai amhriodol neu annichonadwy. Gwneir gwaith cwmpasu ar y prosiectau sy'n weddill o safbwynt:

- adnoddau a chostau;
- canlyniadau neu fanteision;
- risg;
- y goblygiadau o ran seilwaith a chymorth TG;
- dibyniaeth ar weithgareddau eraill;
- cyfyngiadau o ran amseru.

Mae llawer o'r prosiectau a nodir yn y strategaeth wedi bod drwy'r broses hon ac maent yn gweddu'n strategol a chanddynt ddadl gref o ran manteision. Byddwn yn nodi a ydynt wedi cael y flaenoriaeth briodol yng nghyd-destun cyffredinol y strategaeth, ac yn datblygu cynllun gweithredu realistig.